

MEDRWCH GANFOD LLAWENYDD WRTH WASANAETHU JEHOFAH

Nodyn i'r siaradwr:

Rhowch reswm digonol i'r gynulleidfa dros arddangos ysbryd llawen er gwaethaf problemau bywyd. Dangoswch fel mae llawenydd, un o ffrwythau ysbryd Duw, wedi'i gysylltu'n anwahanadwy ag adnabod Duw a'i wasanaethu

DYMUNIAD AC YMDRECHION DYN I GANFOD LLAWENYDD (5 mun.)

Mae pob person normal eisiau bod yn llawen. Ychydig o reswm dros fod yn llawen mae'r byd yn ei gynnig: mae brawychiaeth, gwrthdaro ethnig, trosedd, afiechyd, a'r tebyg yn rhemp yn y byd

Enghraifft: "Mae brawychiaeth wedi dod yn rhyfel didrugaredd heb ffiniau iddo," meddai un swyddog llywodraeth (g86 6/22 3)

Ym 1971, bu i lai na dau ddwsin o bersonau farw mewn ymosodiadau brawychol; ym 1983, dros 10,000; ac yn awr mae gwrthdrawiadau ethnig a brawychiaeth yn bethau arferol (g86 6/22 3; g93 12/22 4-5)

Mae'r byd yn ceisio canfod llawenydd mewn chwaraeon, gwyllo'r teledu, gwyliau, materoliaeth, byw yn ofer Mae byd masnach yn manteisio ar dechnoleg fodern i greu anghenion artiffisial ac yna'u cyflenwi nhw

'Dyw'r ymryson wallgof hon am y llawenydd y mae dyn yn ei ddymuno gymaint ddim yn dod â bodlonrwydd parhaol. Hunanoldeb hunandrechol ydi'r cyfan, yn diweddu yn llwch y bedd (1Tim 6:9, 10; Gal 6:7, 8; Job 17: 13, 16)

MAE DUW YN GORCHYMYN I'W WEISION LAWENHAU (8 mun.)

(Ynglŷn â'r is-bennawd hwn a'r nesaf, gweler w95 1/15 10-15)

Er bod rhai yn credu ei fod yn anghaffaeladwy, mae llawenydd yn bosib' yn y byd drwg hwn

Ystyriwch esiampl Iesu (Heb 12:2)

Er mwyn gwasanaethu Duw, dywed Paul i'r Cristionogion cynnar 'dderbyn mewn llawenydd ysbeilio'u meddiannau' (Heb 10:32-34)

Mae ysbryd mewn dyn sydd ag iddo anghenion y tu hwnt i bethau materol

Oni ddiwellir yr anghenion hyn, 'fydd 'na ddim bodlonrwydd na llawenydd. Rhaid diwallu anghenion y corff a'r ysbryd—gyda chydbwysedd (Mth 4:4; 5:3)

Mae gan bobl Dduw reswm bob amser dros lawenhau (Phil 4:4; 1Thes 5:16)

Daw llawenydd o fod yn ysbrydol. 'Fedr y llawenydd ddaw o eiddo materol gymharu â'r llawenydd sy'n deillio o'n brawdoliaeth fyd-eang? 'Fedr e gymharu â sylw caredig a fynegir gan frawd ysbrydol? Cyffyrddiad cydymdeimladol, ystum caredig, gwên gynnes, neu weithred gariadus gan un a gerwch? Teimlo eich bod yn gwirioneddol berthyn i deulu Duw a'i fod yn gofalu amdanoch yn amser eich angen? Y berthynas wych hon â'ch brodyr ac â Jehofah, y Duw hapus, ydi'r hyn sydd yn eich llenwi â llawenydd. Mae Jehofah yn annog: "Llawenhewch mewn gobaith" (Rhuf 12:12)

NID YW LLAWENYDD DUWIOL YN DIBYNNU AR BETHAU ALLANOL (12 mun.)

"Cyflwr o hapusrwydd" ydi un diffiniad o lawenydd (*Webster's Ninth New Collegiate Dictionary*)

Nodwedd y galon ydi llawenydd nid dim ond mater o deimlo (Diar 17:22; Preg 2:10)

Synnwyr dwfn mewnol o hyfrydwch seiliedig ar egwyddorion ac felly'n hirbarhaol

Nid yw bywyd a llawenydd ddim yn ddibynnol ar bethau materol (Lc 12:15; Mth 13:44) (Cyferbyniwch â'r byd materol, anhapus)

Un o ffrwythau'r ysbryd ydi llawenydd (Gal 5:22)

Mae gwybod y gwirionedd yn sail i lawenydd

Mae deall bwriad Duw yn rhoi ystyr i fywyd, hebdo 'rydym fel "sêr wedi crwydro o'u llwybrau" (Jwdas 13)

Mae'r gwirionedd yn ein rhyddhau ni oddi wrth "Babilon fawr," bendith sy'n dod â llawenydd (Dat 18:2, 4; In 8:32)

'Dyw addolwyr mwyach ddim yn gweddio o flaen delwau difywyd na fedrant ateb (Salm 115:4-8)

Mae gwybod y Beibl yn ein rhyddhau ni oddi wrth ofn artaith dragwyddol; yn ein rhyddhau o afael caethiwed pechod (Rhuf 8:2); yn ein rhyddhau oddi wrth ofni dyn (Salm 118:6)

Mae Duw yn gwobrwyo'r rhai ffyddlon drwy gyflawni addewid bywyd tragwyddol (In 17:3)

PAM MEDR GWEISION DUW GANFOD LLAWENYDD YN EI WASANAETHU (15 mun.)

(Gweler w95 1/15 15-20)

Mae helpu eraill yn dod â llawenydd (1Thes 2:19, 20)

Llawenhau wnaeth y Cristionogion cynnar o gael eu herlid am bregethu. Pam? Oherwydd mai dioddef er mwyn cyfiawnder yr oeddent (Mth 5:10; 1Pedr 4:13, 14)

Mae cyfrifoldeb mawr arnom ni hefyd i bregethu'r newydd da, a medrwn ninnau ganfod llawenydd yn yr un modd wrth wasanaethu Jehofah

Mae'r rhai sy'n gwasanaethu Jehofah yn profi llawenydd er gwaethaf gwaharddiadau swyddogol ar waith y Deyrnas neu gyfyngiadau arno (w91 7/1 31)

Mae gweision Jehofah yn llawenhau heddiw wrth ei wasanaethu â dyfalbarhad (Iago 1:2-4)

Mae Duw yn gofalu am ei weision (Mth 6:31-33)

Enghraifft: Fel mae e'n arbennig yn cynnal arloeswyr a'r rhai mewn gwledydd lle cyfyngir ar y gwaith (Heb 13:5, 6)

Mae gweision Duw yn canfod llawenydd mewn cymdeithasu iach gyda brodyr ffyddlon yn y cyfarfodydd, yn y gwaith maes, ac mewn adloniant iachus (Salm 133:1; Heb 10:23-25)

Dylai bod yn rhan o deulu bydysawdol Duw roi gwefr inni! Yn y byd drwg hwn, mor braf ydi cymdeithasu â brodyr sydd wedi gwisgo amdany'n' y natur ddynol newydd! (Col 3:8-11) Canlyniad y natur ddynol newydd hon ydi bod yn onest (*w*91 6/15 26, profiad o Corsica; *w*93 5/1 27)

Meddyliwch am yr amser pan fydd yr holl fyd mor onest â hynny!

Daw hyfrydwch mawr o lawenhau calon Duw a chael ein sicrhau ei fod yn gwobrwyo'i weision (Diar 27:11; Heb 6:10)

YR UNIG WEITHGARWCH GWERTH CHWEIL YDI GWASANAETHU JEHOFAH (5 mun.)

Mae'n rhoi gwerth i fywyd 'nawr ac i hwnnw sydd i ddod (1Tim 4:8)

Casglwch drysorau ar gyfer bywyd tragwyddol o lawenydd (Mth 6:20; 1Tim 6:19)

Felly parhewch i wasanaethu Jehofah "mewn llawenydd, dewch o'i flaen â chân." (Salm 100:2)

Yn wir, "llawenhau yn yr ARGLWYDD yw eich nerth" (Neh 8:10)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir)